Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

GIG CYMRU NHS WALES




# Diweddariad am y brechlyn
# Vaccination Update





*Cylchlythyr Wythnosol* *Weekly Newsletter* CYHOEDDIAD 6: wythnos **22/02/2021**

## Cynnydd Wythnosol (15 - 22 Chwefror)

### Rydym bellach wedi brechu 164,196 o bobl ar draws ardal ein Bwrdd Iechyd.



Mae canran uchel o'r rhai yng Ngrŵp 5; 65-69 oed, bellach wedi cael eu brechu. Bydd Meddygon Teulu yn brechu unigolion cymwys o fewn Grŵp blaenoriaeth 6. Mae'r Grŵp hwn yn cynnwys oedolion rhwng 16 a 64 oed, gyda chyflyrau iechyd sylfaenol sy'n eu gwneud yn fwy agored i glefydau difrifol a marwolaeth.

### Cwestiynau cyffredin ynghylch grŵp 6:

**A fydd pobl sydd â ME/CFS yn gymwys am frechiad yng Ngrŵp Blaenoriaeth 6?**

Mae pobl sydd â ME/CFS yn annhebygol o gael eu brechu yng Ngrŵp 6 oni bai bod ganddynt broblemau resbiradol cysylltiedig, neu gyflyrau eraill a fyddai'n eu gwneud yn gymwys i gael brechiad.

**A yw pobl sydd ag Asthma yn cael eu cynnwys am frechiad yng Ngrŵp Blaenoriaeth 6?**

Mae pobl sydd ag asthma difrifol (a ddiffinnir fel defnydd rheolaidd o gorticosteroidau drwy'r geg - 3 chwrs yn y 6 mis blaenorol - neu angen mynd i'r ysbyty am broblemau yn ymwneud ag asthma yn flaenorol) wedi'u cynnwys yng Ngrŵp 6.
Nid yw unigolion sydd ag asthma ysgafn i gymedrol yng Ngrŵp 6.

**Mae'r ddolen ganlynol yn darparu rhagor o ddiffiniadau o grwpiau risg clinigol sydd wedi'u cynnwys yng Ngrŵp blaenoriaeth 6 y JCVI (cyfeiriwch at y tabl ar dudalen 10 y ddogfen):**
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/961287/Greenbook_chapter_14a_v7_12Feb2021.pdf

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau ar y diffiniad o ofalwyr a'u cymhwysedd i gael brechiadau. Bydd y canllawiau'n cael eu hamlinellu mewn cylchlythyr yn y dyfodol, cyn gynted ag y bydd y wybodaeth ar gael. Rydym yn gwerthfawrogi y bydd cwestiynau gan bobl, ond byddem yn gofyn i bobl beidio â chysylltu â'u Meddygon Teulu, na'r Bwrdd Iechyd, hyd nes y cyhoeddir y canllawiau..

**Cyfanswm y bobl ar draws ardal ein Bwrdd Iechyd wedi derbyn eu dos cyntaf o'r brechlyn Covid-19:**
(hyd at 22/02/21)

**164,196**

### Ffigyrau Brechu Wythnosol
(15 - 22 Chwefror)

| | |
|---|---|
| **Pobl 80 oed a'n hŷn** | **90.5%** |
| **Pobl 75-79 mlwydd oed** | **92.8%** |
| **Pobl 70-74 mlwydd oed** | **93.1%** |
| **Pobl 65-69 mlwydd oed** | **75%** |
| **Brechiadau a roddwyd mewn Meddygfeydd Meddyg Teulu** | **54,115** |



Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

Diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus.
*Gyda'n gilydd byddwn yn cadw Gwent yn ddiogel.*

# Yr Wythnos Sydd i Ddod (22 Chwefror - 1 Mawrth)

**Yr wythnos hon, rydym i fod i gael cyflenwad o 23,480 o frechlynnau.**

## Ail Ddosau

Byddwch yn ymwybodol ein bod wedi dechrau anfon llythyrau yn gwahodd y rheiny sy'n barod am ail ddos o'u brechlyn ar gyfer y brechlyn Pfizer. Lle bynnag mae cyflenwad yn caniatáu, byddwn yn dod â rhai apwyntiadau ymlaen.

Os ydych wedi cael eich brechlyn Pfizer a chewch apwyntiad sydd cyn y bwlch disgwyliedig o 12 wythnos, gallwn eich sicrhau bod y gwahoddiad hwn yn ddilys a dylech fynychu'ch apwyntiad. Sicrhewch eich bod yn dod â'r llythyr a rhyw ffurf ar brawf adnabod.





## Brechwyr Tîm Caerffili

Llwyddodd dîm brechu Caerffili, sy'n gweithredu fel tri thîm o ddau, roi dros 400 o frechlynnau i bobl sy'n gaeth i'w cartref yng Nghaerffili. Roedd y timau yn cynnwys Sian Margetts, Allison Morris a Sharon Griffin, gyda chefnogaeth nyrsys ardal dan hyfforddiant. Roedd y myfyrwyr yn gymorth gwych, â'r tîm yn eu canmol i'r cymylau. Mae'r tîm yn hynod ddiolchgar i'r arweinwyr addysg myfyrwyr a phawb sydd ynghlwm.

## Brechu Cymru: y garreg filltir arwyddocaol gyntaf

Yr wythnos ddiwethaf, bu Dr Liam Taylor, Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, yn westai ar Eye on Wales, BBC Radio Wales.Trafododd Dr Liam Taylor, ynghyd ag arbenigwyr eraill, gynnydd rhaglen frechu'r coronafeirws, gyda'r cyflwynydd Oliver Hides.
Os na chlywsoch y drafodaeth addysgiadol, mae cyfle eto ar wefan y BBC:
https://www.bbc.co.uk/programmes/m000s980



## Dave a Shirley

Roedd staff yn ein Canolfan Frechu Torfol Trecelyn yn falch o frechu rhai wynebau cyfarwydd yr wythnos diwethaf - Dave a Shirley o Gogglebox!
Roedd y cwpl yn falch iawn o gael eu brechu a gwnaethant godi calon ein staff brechu.

Am ragor o wybodaeth, ac i ganfod ym mha grŵp blaenoriaeth ydych chi, ewch i: https://www.gov.uk/government/publications/priority-groups-for-coronavirus-covid-19-vaccination-advice-from-the-jcvi-30-december-2020

Cyhoeddir ffigyrau brechu dyddiol gan Iechyd Cyhoeddus ar eu gwefan:
https://public.tableau.com/profile/public.health.wales.health.protection#!/vizhome/RapidCOVID-19virology-Public/Headlinesummary

Mwy a wybodaeth a Chwestiynau Cyffredin ar ddarpariaeth, cymhwysedd a diogelwch y brechiad, ewch i:
https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/covid-19-vaccination-information/about-the-vaccine/

**Cyflenwad brechlynnau ar gyfer yr wythnos hon 23,480**

## Trefn Brechlynnau

| | |
|---|---|
| 80 oed a hŷn | Meddygfeydd Meddyg Teulu |
| 72-79 oed | Canolfannau Brechu Torfol |
| 70-71 oed | Meddygfeydd |
| Hynod Fregus Yn Glinigol | Meddygfeydd |
| 65-69 oed | Canolfannau Brechu Torfol |
| 60-64 oed | Canolfannau Brechu Torfol |
| 55-59 oed | Meddygfeydd |
| 50-54 oed | Canolfannau Brechu Torfol |
| Yn Gaeth i'r Tŷ | Timau Symudol |
| Grŵp 6 | Meddygfeydd |

## Apwyntiadau

**Gwyddom fod rhai pobl yng ngrwpiau blaenoriaeth 1-4 nad ydym wedi gallu eu brechu eto am nifer o resymau.**

Os ydych yn 80 oed a hŷn, yn 70-71 oed neu'n hynod fregus yn glinigol, ac nad ydych wedi cael gwahoddiad am apwyntiad, cysylltwch â'ch Meddyg Teulu. I'r bobl hynny sydd rhwng 72-79 oed, os nad ydych wedi cael llythyr apwyntiad eto, cwblhewch y ffurflen drwy'r ddolen ganlynol: https://abuhb.nhs.wales/coronavirus/covid-19-vaccine/aged-72-79-and-not-received-your-invitation/

Os cewch apwyntiad, gwnewch bob ymdrech i fynychu. Peidiwch â chysylltu â'r ganolfan drefnu na phractis eich Meddyg Teulu os nad ydych wedi cael eich llythyr apwyntiad hyd yn hyn.